| Enw'r Ymgeisydd | Rhif y Ganolfan | Rhif yr Ymgeisydd |
|---|---|---|
| | | |

**CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU**
**Tystysgrif Addysg Gyffredinol**
**Uwch Gyfrannol/Uwch**

**WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE**
**General Certificate of Education**
**Advanced Subsidiary/Advanced**

443/51

**DAEARYDDIAETH – UNED GG3a**

**DAEARYDDIAETH YMCHWILIADOL**

**A. YMCHWILIAD YM MAES DAEARYDDIAETH FFISEGOL**
**B. YMCHWILIAD YM MAES DAEARYDDIAETH DDYNOL**

P.M. DYDD GWENER, 19 Mai 2006

(1½ awr)

| Arholwr yn unig | |
|---|---|
| Adran A | |
| Adran B | |
| Cyfanswm | |

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen cyfrifiannell.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn yn y mannau priodol.

**Dylech gyfyngu eich atebion i'r llinellau a ddarperir. Ni ddylech ddefnyddio'r llinellau yn y cefn oni bai i chi ddileu rhannau helaeth o'ch ateb.**

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Atgoffir chi y bydd y marcio yn cymryd i ystyriaeth ansawdd cyfathrebu eich atebion.

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

## ADRAN A. YMCHWILIAD YM MAES DAEARYDDIAETH FFISEGOL

### Astudiaeth o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar gyfraddau ymdreiddiad dŵr i'r pridd mewn dalgylch bychan afon yng nghanolbarth Cymru

Roedd dau fyfyriwr eisiau mesur ymdreiddiad ar bedwar safle mewn rhan o ddalgylch afon yn yr uwchdir er mwyn ymchwilio i unrhyw amrywiadau yn y cyfraddau ymdreiddiad. Roedd y myfyrwyr yn gwybod bod cyfraddau ymdreiddiad yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau ffisegol a dynol.

Mae **Map 1** ar **dudalen 3** yn dangos y rhan o'r dalgylch afon y gwnaethont ei ddewis yn yr uwchdir.

Mae'r pedwar safle lle y mesurwyd y cyfraddau ymdreiddiad wedi'u labelu 1 – 4 ar y map hwn.

**1.** *(a)* Heblaw am uchder, nodwch **ddau** ddarn o dystiolaeth o'r rhanfap sy'n awgrymu mai dalgylch afon mewn **uwchdir** yw hwn. [2]

.......................................................................................................................................

.......................................................................................................................................

.......................................................................................................................................

.......................................................................................................................................

*(b)* Eglurwch pam roedd angen i'r myfyrwyr gasglu eu data mewn amrywiaeth o leoliadau. [3]

.......................................................................................................................................

.......................................................................................................................................

.......................................................................................................................................

.......................................................................................................................................

.......................................................................................................................................

.......................................................................................................................................

*(c)* Diffiniwch *hapsamplu* ac eglurwch pam y byddai wedi bod yn anaddas ar gyfer penderfynu ar leoliad y pedwar safle. [3]

.......................................................................................................................................

.......................................................................................................................................

.......................................................................................................................................


.......................................................................................................................................

.......................................................................................................................................

.......................................................................................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**Rhanfap Ordnans yn dangos rhan o ddalgylch afon mewn uwchdir**




**Map 1**



**Trosodd.**


Examiner only
*Arholwr yn unig*

**2.** Mae **Diagram 1** ar **dudalen 5** yn dangos y dull a ddefnyddiwyd gan y myfyrwyr i fesur y cyfraddau ymdreiddiad. Cyflawnwyd y dull gweithredu hwn dros gyfnod penodol o amser ym mhob un o'r pedwar safle. Cafodd y mesuriadau hyn eu cymryd yn yr haf ar ôl sawl diwrnod o dywydd sych.

Lluniwch ddalen gofnodi yn y lle gwag isod, dalen y byddai'r myfyrwyr wedi gallu ei defnyddio ar gyfer casglu data'r gwaith maes hwn yn y pedwar safle.
Defnyddiwch y wybodaeth ar **Ddiagram 1** a **Graff 1** ar **dudalen 5** i'ch helpu. [5]

Dalen Gofnodi


**Mesur yr Ymdreiddiad**




- Defnyddiwch ddarn 30cm o beipen law *(drainpipe)* sydd â marc gweledol sy'n dal dŵr *(waterproof)* ar y tu mewn.
- Gwthiwch/morthwyliwch y beipen law yn gadarn i mewn i'r ddaear i ddyfnder o tua 10cm.
- Yn gyflym, ychwanegwch ddŵr i'r tiwb hyd at y marc gweledol.
- Gan ddefnyddio ail gynhwysydd wedi'i raddnodi, arllwyswch ddŵr i mewn i'r beipen law.
  Mesurwch faint o ddŵr sy'n cael ei ychwanegu bob munud er mwyn cadw'r dŵr yn y beipen law hyd at y marc gweledol.
- Dylid parhau i gymryd mesuriadau bob munud hyd nes y bydd cyfradd gyson wedi'i chyrraedd.

**Diffiniad o ymdreiddiad yw'r broses lle mae dŵr yn mynd i mewn i'r pridd.**

**Diagram 1**




**Graff 1**



**Trosodd.**

**3.** Cofnododd y myfyrwyr yr holl ddata oedd eu hangen ar gyfer y pedwar safle ac yna lluniodd un ohonynt **Graff 1** i gynrychioli'r data hyn. Dim ond gwybodaeth am y 30 munud cyntaf o fesuriadau ym mhob safle a ddangosir ar y graff.

*(a)* Cymharwch y cromlinau ymdreiddiad a ddangosir gan y graff. [4]

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

*(b)* Nodwch y gyfradd ymdreiddiad cyson terfynol ar gyfer y safle gwastad ar ochr y bryn. [1]

........................................................................................................................................

*(c)* Eglurwch pam nad yw'n bosibl eto, o'r wybodaeth a ddangosir ar **Graff 1**, rhoi ymdreiddiad cyson terfynol ar gyfer y safle ar y llethr coediog serth. [1]

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

**4.** Trafodwch sut y gallai'r myfyrwyr wella a datblygu'r astudiaeth hon. [6]

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

Examiner only *Arholwr yn unig*

## ADRAN B. YMCHWILIAD YM MAES DAEARYDDIAETH DDYNOL

### Astudiaeth o batrymau amddifadiad ar hyd trawslun trefol

Roedd myfyrwraig eisiau astudio patrymau amddifadiad *(deprivation)* o fewn ei dinas enedigol yn Ne Cymru. Roedd yn gwybod mai un o'r ffynonellau gorau ar gyfer gwybodaeth fyddai Cyfrifiad Cenedlaethol 2001. Roedd hefyd yn gwybod na fyddai ganddi'r amser i ystyried amddifadiad ar draws y ddinas gyfan ac felly penderfynodd ddefnyddio **un** trawslun trefol. Cyn dechrau ar ei hastudiaeth yn fanwl, cerddodd ar hyd y trawslun a ddewisodd o ganol y ddinas tuag allan.

**1.** *(a)* Beth yw ystyr y term '*trawslun*'? [1]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

*(b)* Heblaw am ystyriaethau diogelwch a mynediad, awgrymwch pam roedd yn syniad da iddi hi gerdded ar hyd y trawslun cyn dechrau ar ei hastudiaeth yn fanwl. [2]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

*(c)* Eglurwch sut y byddai ymchwilio mwy nag un trawslun tuag allan o ganol y ddinas wedi gwella'i hastudiaeth. [2]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

**2.** Roedd angen i'r fyfyrwraig gael gwybodaeth fanwl o'r cyfrifiad am yr ardaloedd ar hyd y trawslun. Ar gyfer y rhan fwyaf o astudiaethau trefol lleol, mae graddfa orau'r data ar lefel 'ward'. Mae **Tabl 1** yn dangos rhywfaint o'r wybodaeth cyfrifiad a gafodd am y wardiau ar hyd y trawslun. Mae **Map 2a** ar **dudalen 10** yn dangos lleoliad y wardiau a'r trawslun a ddewiswyd.

**Newidynnau wedi'u dewis fesul ward** **Cyfrifiad Cenedlaethol 2001**

| Ward | Pellter o ganol y ddinas i ganol y ward (km) | Cyfanswm Poblogaeth (000oedd) | Cyfradd Diweithdra (%) | Dwysedd Poblogaeth (i bob km sg.) | Newid Poblogaeth (1991-2001)% | Perchenogaeth Car (%) | Tai Sengl (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | 2.2 | 8.3 | 4.7 | 641 | – 7.7 | 33 | 3.2 |
| B | 3.1 | 13.2 | 4.8 | 778 | – 1.7 | 42 | 2.1 |
| C | 3.9 | 6.7 | 3.8 | 659 | – 0.3 | 51 | 4.4 |
| D | 5.2 | 10.4 | 3.6 | 489 | + 1.6 | 64 | 10.4 |
| E | 5.8 | 5.8 | 4.1 | 402 | + 1.3 | 78 | 29.2 |
| F | 6.9 | 17.1 | 2.8 | 231 | + 5.7 | 79 | 34.2 |
| G | 7.7 | 13.9 | 2.4 | 188 | + 4.8 | 81 | 54.8 |
| H | 8.9 | 4.8 | 1.3 | 113 | + 13.8 | 93 | 83.1 |

**Tabl 1**

*(a)* Gwnaeth y fyfyrwraig ei hymchwiliad yn 2006.
Eglurwch sut a pham y mae hyn yn cyfyngu ar werth y data cyfrifiad a gafodd. [3]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

*(b)* Pa newidyn yn y tabl nad yw'n berthnasol i'w hastudiaeth o batrymau amddifadiad? [1]

..............................................................................................................................................

*(c)* Nodwch

(i) newidyn sy'n dangos cydberthyniad cadarnhaol perffaith gyda phellter o ganol y ddinas; [1]

..............................................................................................................................................

(ii) newidyn sy'n dangos cydberthyniad negyddol cryf gyda phellter o ganol y ddinas. [1]

..............................................................................................................................................

**3.** Trwy ddefnyddio pump o'r newidynnau yn **Nhabl 1**, cyfrifodd y fyfyrwraig Fynegrif Amddifadiad *(Deprivation Index)*. Gwnaeth hyn drwy raddio pob un o'r newidynnau hyn ar gyfer yr wyth ward, gyda gradd o 1 ar gyfer yr un lleiaf amddifadus (*deprived*) ac 8 ar gyfer yr un mwyaf amddifadus. Drwy eu cyfansymio ar gyfer pob ward, ceir y Mynegrif Amddifadiad.

Mae **Tabl 2** yn dangos y Mynegrif Amddifadiad ar gyfer pob ward.

| Ward | Mynegrif Amddifadiad |
|---|---|
| A | 36 |
| B | 38 |
| C | 30 |
| D | 23 |
| E | 23 |
| F | 14 |
| G | 11 |
| H | 5 |

**Tabl 2**

*(a)* (i) Cwblhewch fap coropleth (graddliwio yn ôl dwysedd) ar **Fap 2b** ar **dudalen 10**, gan ddefnyddio'r Mynegrifau Amddifadiad. Dewiswch ffiniau dosbarth addas a graddliwio priodol. Lluniwch allwedd yn y lle gwag a ddarperir i chi wrth ymyl y map ar **dudalen 10**. [4]

(ii) Eglurwch yn gryno eich penderfyniad dros y ffiniau dosbarth. [2]

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

*(b)* Amlinellwch **ddwy** anfantais o ddefnyddio techneg coropleth i ddangos y patrymau amddifadiad hyn. [2]

**1.** .....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................


**2.** .....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................




**Trosodd.**

Examiner only
*Arholwr yn unig*




**Map 2a**




**Map 2b**

**4.** Mae'r map, ynghyd â'r wybodaeth yn **Nhabl 1**, yn awgrymu'n gryf fod y trawslun a ddewisodd y fyfyrwraig yn dangos patrwm o amddifadiad o ganol y ddinas tuag allan. Hyd yn hyn, mae'r wybodaeth a ddefnyddiwyd ganddi ar ffurf data eilaidd o'r Cyfrifiad Cenedlaethol.

Ystyriwch pa ddata **cynradd** y gallai'r fyfyrwraig eu casglu i'w helpu i gadarnhau patrwm yr amddifadiad ar hyd y trawslun hwn. Cyfiawnhewch eich awgrymiadau. [6]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**Parhad yn unig. Ni ddylid defnyddio'r tudalennau hyn oni bo GWIR RAID.**

Examiner only
*Arholwr yn unig*